OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 679

## Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod addysg" ("*education authority*") yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "grant" ("*grant*") yw grant sy'n daladwy o dan adran 484 o Ddeddf 1996 yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "gwariant a gymeradwywyd" ("*approved expenditure*") yw unrhyw wariant sydd wedi'i gymeradwyo yn unol â'r ddarpariaeth yn rheoliad 3;

ystyr "gwariant a ragnodwyd" ("*prescribed expenditure*") yw gwariant gan awdurdod addysg at unrhyw un o'r dibenion a bennir yn yr Atodlen neu mewn cysylltiad â hwy;

ystyr "penderfynu" ("*determine*") yw penderfynu drwy hysbysiad ysgrifenedig;

mae i "safle ysgol" yr ystyr a roddir i "*school site*" ym mharagraff 2(11) o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at reoliad a gynhwysir ynddynt, mae cyfeiriad mewn rheoliad at baragraff yn gyfeiriad at baragraff yn y rheoliad hwnnw, ac mae cyfeiriad at yr Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1996 p.56.
(**2**) 1998 p.31.